**EITEM AR YR AGENDA: 9**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**10fed o Fai 2010**

## CYNLLUN GWEITHREDU'R AROLYGIAD IECHYD A DIOGELWCH

**Adroddiad gan Paul Claydon, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

### Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am y Cynllun Gweithredu arfaethedig sy'n cael ei ddatblygu gan y Gwasanaeth er mwyn cwrdd â'r argymhellion a'r sylwadau a ddaeth gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn dilyn ei arolygiad a'i adroddiad i'r Gwasanaeth wedi hynny.

### Cyflwyniad

2 Ym Mawrth 2009, cafodd y Gwasanaeth rybudd o fwriad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i gynnal arolygiad o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru fel rhan o sampl o wyth Gwasanaeth Tân ac Achub trwy'r Deyrnas Unedig. Cynhaliwyd yr arolygiad yn Rhagfyr 2009.

3 Bydd yr Aelodau'n cofio derbyn adroddiad eglurhaol yn y cyfarfod o'r Awdurdod ym mis Mawrth, ynghyd â chopïau gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch at y Prif Swyddog Tân ac adroddiad arolygiad yr Awdurdod Gweithredol ar y Gwasanaeth.

4 Roedd yr adroddiad eglurhaol yn y cyfarfod ym mis Mawrth yn ymgymryd i roi gwybod i'r Aelodau am hynt y Cynllun Gweithredu.

## Y Sefyllfa Bresennol

5 Y dogfennau sydd ynghlwm yw'r Cynllun Gweithredu a ddatblygwyd gan y Gwasanaeth i gwrdd nid yn unig â'r pedwar argymhelliad (Atodiad 1) yn adroddiad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, ond hefyd i edrych ymhellach ar rai o'r sylwadau a wnaed yn ystod yr arolygiad (Atodiad 2).

6 Mae Cynllun Gweithredu'r Gwasanaeth ar y pedwar argymhelliad (Atodiad 1) wedi enwebu rhywrai i fod yn gyfrifol am bob un o'r argymhellion/materion, a methodoleg ar gyfer eu datrys, diweddariad ar y sefyllfa bresennol ac amserlen ar gyfer cwblhau.

7 Mae'r Gwasanaeth yn disgwyl ymateb gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i'r Cynllun Gweithredu.

## Argymhellion

8 Bod yr Aelodau'n nodi'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad hwn.